

BWIC CYMRU



CYFARFOD NESAF 12 FED CHWEIFROR 8YH

Y Vaynol, Nant Peris - bwyd yn rhad ac am ddim

Dyddiadau Dyddiadur

- 7fed-9fed o Fawrth LLAMFF
- 8fed Ebrill cyfarfod CMC, Y Vaynol, Nant Peris 8.00yh
- 26ain Mehefin Tremfest
- 3ydd Mehefin cyfarfod CMC ar yr Orme
- 2il/3ydd Awst Gŵyl Gogarth
- 2il Medi cyfarfod CMC, Y Vaynol, Nant Peris 8.00yh
- 6ed Rhagfyr Diwrnod o Hwyl ym Mhlas y Brenin ar gyfer mynyddwyr a dringwyr CMC, trwy'r dydd.

Arwyddion ar Bedol yr Wyddfa

Fel yr addewyd yn ein cyfarfod diwethaf, ysgrifennais i ynglyn a'r mater hwn i grwp 'Mountain Safe' heddlu Gogledd Cymru:

Yn ddiweddar rydym wedi clywed o'r cynnigion i leoli arwyddion rhybydd ar Bedol yr Wyddfa. Un o'r rhodfeydd gorau Pryd



ain yw'r Bedol, ac mae'r daith yn u anghenrheidiol i bob mynyddwr yn y wlad. Mae'n tramwyo un o gribion mwyaf unigryw Prydain, gydag ond y Cuillin du yn Skye yn cynnig her

uwch. Rydym yn ymwybodol bod cerdded yr Wyddfa yn daith boblogaidd i'r rai ymwelwyr sydd ddim yn fynyddwyr profiadol, ac hefyd yn ymwybodol bod rhai yn crwydro i Grib Goch. Mae'r rhan fwyaf yn byw i ail-adrodd eu helynt. Rydym yn gwrthwynebu'n gryf lleoliad ynrhyw arwydd yn cael ei leoli ar Grib Coch neu Crib y Ddysgl. Mae'r weithred wrbanaidd hon yn gwbl annerbyniol i'n haelodion. Fe fyddwn ni'n derbyn rhybydd mwy clir ar ddechrau'r llwybr PYG, a rydym eisioes wedi dod i arfer yr arwydd ym Mwlich y Moch.

Dy dyn ni ddim yn credu bydd yr arwydd hon yn cynhorthwyo'r sefyllfa oherwydd dylai fod yn ddigon glir eisioes pa un yw'r llwybr cywir o Fwlch y Moch. Y math o berson sy'n anwybyddu'r peryglon amlwg ar ddechrau dringfa Crig Goch yw'r math o berson a fydd yn anwybyddu unrhyw arwydd ac, heblaw am hyn, mae yna ddadl ei bod yw hi'n haws parhau ar hyd Crib Goch yn hytrach na disgyn ar hyd y grib ddwyreiniol. Felly, am y rhesymau hyn, yng nghyfarfod mis Rhagfyr BMC Cymru fe bleidleisiodd dros 50 o bobl i wrthwynebu unrhyw arwydd ar Bedol yr Wyddfa, tra nad oedd unrhywun yn ei gefnogi.

Mike Raine

Cadeirydd BMC Cymru/Wales"

Wal Ddringo newydd Ysgol Eifionydd Porthmadog

Nos Iau Ionawr y 10fed agorwyd y wal yn swyddogol gan y Br Eric Jones. Bydd y wal ar gael i aelodau'r BMC pob nos Fercher rhwng 7-9pm, pris mynediad £3. Lle i ugain yn unig sydd ar y wal, felly, os oes rhywun a diddordeb mae'n hanfodol i ffonio gynta i sicrhau bod na le ar y noson. Ffoniwch Mike Lewis 01766 810 796

Mike Lewis

Bolt Fund

Mae Ground Up am roddi £265 tuag at Bolt Fund Gogledd Cymru er mwyn helpu talu am waith ail-baratoi Ian Lloyd Jones ar greigiau carreg galch o amgylch Benllech, Ynys Mon. Ceir nifer o lwybrau trad a sport yn yr ardal hon yn dyddio'n ol i 1991 sydd erioed wedi'u ddogfennu'n ffurfiol. Mi fydd y creigiau yma'n ymddangos yn y cyfarwyddyd 'Gogarth North' nesaf sydd ar fin ei gyhoeddi,

yn ogystal a'r graig Fedw Fawr, sydd newydd gael ei baratoi yn ddiweddar.

Cynrychiolaeth Cyngor Cenedlaethol

Yn anffodus bu rhaid i Roger Benion ymdynnu o'r swydd hon yn ddiweddar ac felly mae angen gwirfoddolwr arall. Yn unig peth sydd yn rhaid i chi wneud yw i mynd gerdded neu ddringo, yna eistedd yng nghwrdd a rhoi eich barn, gan obeithio bydd hyn yn adlewyrchu barn cyfarfodydd BMC Cymru, yna cael pryd o fwyd a lleti yn rhad ac am ddim gyda'ch costiau teithio wedi'u talu. Cyngor Cenedlaethol yw corff penderfynu uchaf y BMC sy'n cadw llygad ar ddatblygiadau lleol, ac yn creu penderfyniadau ar lefel cenedlaethol. Os hoffech chi wybod mwy, cy-sylltwch â fi mikeraine@hotmail.com. Mae BMC Cymru/Wales yn arbennig gan fod gennym ni tri chynrychiolwr ar y cyngor, dau o'r gogledd ac un o'r de, lle bod gan yr ardaloedd Saesneg ond dau gynrychiolwr yr un. Am hynny mae hi'n bwysig iawn cael gwirfoddolwr bwrdfrydig arall i'n cynrychiolu.

Gwifren rydlyd a bagiau cerrig mawr gwyn

Un o'r prosiectiau mwyaf ar gyfer 2008 yw helpu symyd hen fyrnau gwifren a bagiau cerrig di-angen (a ddefnyddwyd i hedfan cerrig i greu llwybrau). Yr unig peth sydd yn rhaid i chi wneud yw adroddi unrhyw welediad i'r cyfeiriad ebost newydd bmccymruwales@live.co.uk, yna cadw llygad ar agor ar gyfer cyfle i'n helpu ni i'w symyd. Mae hyn yn prosiect cyswllt gyda Cymdeithas Eryri ac yn gyfle perffaith i ni gyd ddangos ein gofal am y mynyddoedd. Fe

fyddwn yn cwrdd gyda'r parc genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y RAF a ffermwyr lleol, ond bydd rhan fwyaf y gwaith yn wirfoddol, felly mae angen eich cymorth. Edrychwch ar y safle wê hyn ar gyfer ysbrydoliaeth www.green-snowdonia.co.uk. Dwi'n clywed su am broblemau dympio sbwriel ym Mhen Trwyn hefyd, ac bydd modd cynnig ein cymorth yn y fan hyn hefyd.



Gŵyl Ffilmiau Mynydda Llanberis

Paid â'i fethu! Mae'r pedwerydd LLAMFF yn gaddo rhaglen pen ei gamp o ffilmiau, ddarlithoedd, sgysiau, cân a chelf yn dod o Gymru a phedwar ban y byd - ceir hanfod antur a chyffro chwaraeon yn y mynyddoedd, yn ogystal â'r cyfle i ddathlu celfyddyd a diwylliant mynydd byd eang. Mae tocyn i'r wyl yn eich hawlio chi i fyneidiad anghyfyngedig i amrywiath o ddigwyddiadau, ffilmiau, ein hail gystadleuaeth ffilmiau rhyngwladol, ffilmiau yn cael eu dangos am y tro cyntaf erioed,

sgyrsgiau gan enwogion byd mynydda a dringo, hwylio a chaiacio, a dewisiadau'r orau o Wyl Ffilmiau Mynydda Kendal, yn ogystal â llawer, lawer mwy. Am ragor o fanylion am ein rhaglen ysbrydol (sydd dal ar dwf), ac ar sut i archebu tocynnau ewch at ein gwefan www.llamff.co.uk

Bwlch y Moch

Mae cael y cynllun reoli yn ei le ar gyfer cychwyn y gwaith coed yn profi i fod yn broses reit rwystredig! Mae'r cynllun gwreiddiol nawr rhywle rhwng ein Rheolwr Cynllun, yr Ecolegwr a'r Comisiwn Coedwigoedd, felly does gen i ddim syniad pryd gallwn ddechrau arni.



Llanrug wedi'i Achub!

Mae Canolfan Awyr Agored Llanrug, sydd yn cael ei rhedeg gan Gyngor Sir Worcester wedi'i achub rhag gorfod cau. Mae grŵp mawr wedi cyfrannu at yr ymgyrch ac wedi gweithio'n galed i godi proffil gweithgareddau awyr agored ymhlith pobl ifanc Worcester a phwysigrwydd canolfannau awyr agored i economi ardaloedd o Gymru. Diolch i bob aelod o CMC ddaru arwyddo'r ddeiseb ar-lein, mae'n braf gwybod ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth weithiau. Edrychwn ymlaen at fwy o ddefnydd lleol o'r ganolfan wrth iddo geisio lleihau ei ddibyniaeth ar y Cyngor Sir dros y tair blynedd nesaf.

Cyfleoedd Dyfodol gyda CMC

Gallwch chi wneud rhywbeth yr ydych eisiau! Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cynrychioli'r clwb, peidiwch â bod yn swil, rhowch wybod i mi, ac mi roddai i ragor o fanylion i chi. Mae Kieth a finnau yn mwynhau pob munud o fod yn Ysgrifenydd a Chadeirydd, ond nid allwn ni parhau i'w wneud am byth! Os ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person i'n olynu, nawr yw'r amser i ddechrau dod yn arfer â'r syniad, rhowch wybod i ni, holwch rywbeth ohonom ni a gwnawn ein gorau i'ch cyfarwyddo â'r gwaith yn slo' bach. Cofiwch fod CMC yn sefydliad gwirfoddol sydd yn dibynnu arnoch chi. Cymru yw'r rhan bwysicaf o'r BMC, felly byddwch yn falch, byddwch yn hyderus, camwch allan!

Felly, beth mae'r BMC wedi gwneud i fi erioed? Well, a dweud y gwir, mi fyddwch chi'n synnu. Mae BMC naw pwyllgor arbennigol gyda'r BMC sy'n cael eu gwasanaethu gan y swyddogion llawn amser. Yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ym mis Rhagfyr, clywsom beth meant wedi bod yn gwneud yn ystod 2007. Mae'r naw pwyllgor yn cynnwys: Grwp Mynediad, Cadwraeth ac Amgylchedd, Pwyllgor Cystadlaethau, Grwp Llywio Tegwch, Pwyllgor Arweinyddiaeth, Grwp Cwtiau, Pwyllgor Rhyngwladol, Pwyllgor Technegol, Pwyllgor Hyfforddiant a Ieuenctid (TYC), Pwyllgor Waliau Dringo. Dyma'r adroddiadau ar gyfer 2007 am un o'r pwyllgorau yma, gellir weld y gweddill ar www.thebmc.co.uk

Grwp Mynediad, Cadwraeth a'r Amgylchedd Adroddiad 2007

- Pwysu ar DEFRA, CCW, Llywodreth Cynulliad Cymru a Westminster yn arwain at ymgynghoriad y cyhoedd dros mynediad arfordirol.
- Datblygu ymgyrch mynediad arfordirol y BMC gan weithio gyda Natural England a CCW fel aelod allweddol o rŵpiau hapddalwyr mynediad arfordirol.
- Cwblhau ac arwain ar lythyr ymgyrch cyfunol i'r Gweinidog Cymraeg ar gyfer yr Amgylchedd am gynnyddu hygyrchedd i'r afordir Cymraeg (9 pwyllgor ynghlwm).
- Cyfarfod gyda David Miliband (cyn Gwenedog ar gyfer yr Amgylchedd) ar lawnsiad ymgynghoriad cyhoeddus ynglun â chynnyddu mynediad i'r arfordir.
- Cyfarfod gyda'r Tywysog Charles yng nghanolfan Moorland, Edale i drafod gweithgareddau adlonol yn ardaloedd yr ucheldir.
- Cynnal digwyddiad cyhoeddusurwydd ym Mrean Down, Somerset i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus am mynediad arfordirol – dros 8 cyfweiliad gyda'r cyfryngau yn cynnwys Radio 4.
- Cwblau amryw o ymgynghoriadau cyhoeddus DEFRA yn cynnwys cynnyddu mynediad cyhoeddus i'r arfordir Saesneg; yr hawl i ymgeisio am orchmynion i ddiffodd ac i ddiddanu ProWs; ymgynghoriad "Natural England" ar yr actifiant a terfyniant cyfyngiadau atal tân o dan CroW; ymgynghoriad y CCW ar safonau llwybrau a safonau ansawdd am ddatblygiad llwybr arfordirol Cymru; ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol ar ddringo ar ei tîr.
- Cyfarfod gyda Gwenedog Cynulliad Cymru ar gyfer yr

- Amgylchedd, Tai a Chynaladwyaeth, Jane Davidson.
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau gweithio gyda cyfundrefnau eraill aelodaeth a gwirfoddol yn enwedig Cymdeithas Crwydrwyr, Undeb Prydeinig Canwio, Cymdeithas Ceffylau Prydeinig, CTG, YHA a Cymdeithas Ardaloedd Agored.
- Cyfarfodydd gyda Natural England ar faterion amrywiol yn cynnwys mynediad i'r arfordir a phroses cyfyngiadau CroW.
- Gweithio'n agos gyda'r MoD a'r Estadau Amddiffyn i egluro trefniadau mynediad i ardaloedd dringo ar feysydd tanio-byw. Datblygu rhaglen i ailosod hoelion belai diangen ac i ychwanegu rhai newydd ar feysydd Dê Sir Benfro.
- Mae'r BMC wedi cael ei gynrychioli ar y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, Adran Gweithgareddau Awyr Agored CCPR, Cyngor am Barciau Cenedlaethol, Grwp Mynediad Cymdeithas Canwio Cymru, Cyswllt Amgylcheddol Cymru, Cysylltiad Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad, Grwp Canolbwyt Mynediad ac Adloniant yr MoD.
- Cyfrannu at "rŵp gweithio côd" y CCW i archwilio y mwynhad cynaladwy a chyfrifol o gefn gwlad Cymru (3 syfarfod).
- Cynrhychioli'r BMC mewn amryw o gynhadleddau cyhoeddus yn cynnwys y Rhwydwaith Adloniant Cefngwlad, Cynhadledd Ucheldir Parc Cenedlaethol Ardal y Bannau.
- Cwblhau datblygu polisi amgylcheddol y BMC gyda nifer o bennodau allweddol a datganiadau egwyddorol ar faterion amgylcheddol allweddol.
- Mynychu cyfarfod mynediad McofS ym Mherth.

- Helpu datblygu y bas-data Mynediad Arfordirol (ar gael ar wê-fan y BMC)
- Diweddarau'r Pecyn Adnoddau ar gyfer Mynediad a Chadwraeth.
- Creu'r adran ar gyfer Mynediad a Chadwraeth ar we-fan newydd y BMC.

Cymru

- Chwilio am ffeithiau ac ymchwil cefndir ar ddichonoldeb o lwybr wedi'i phal-mantu i gyrraedd Dinas Cromlech er mwyn atal erydiad pellach o'r dynesiad (yn parhau).
- Ail-assesiad o gyfyngiadau nythu Great Orme, a gwaith cyswllt mynediad ym Mhen Trwyn.
- Atgyweirio mynediad goddefol yn Chwarel Maeshafn.
- Gwaith cyswllt i symud ffensio gwaharddol yn "Devil's Gorge" (yn parhau).
- Gwaith mewn partneriaeth gyda arbennigwyr lleol a Cyngor Sir Dinbych i rheoli cyfyngiadau nythu ar calchfaen Clwyd.
- Mewnbwn tuag at rheoli materion parcio yn Nghwm Ogwen.
- Gwaith mewn partneriaeth â PCNPA ar gyfyngiadau nythu yn Nê Sir Benfro.

Aelodaeth BBC

Yn rhyfeddol, mae rhai dringwyr a cherddwyr allan yna sydd ddim yn gweld pwrpas y BMC. Cipi-wch nhw, perswadi-wch nhw a gwerthwch aelodaeth iddyn nhw. Mae'r BMC angen eich arian i ddal ati ar y gwaith o gynrychioli dringwyr a cherddwyr. Am lai na £30 y flwyddyn meant yn gwneud joben reit dda. Wrth gwrs, os nad ydych chi'n credu hynny, ewch i gyfarfod a rhowch eich hunain yn eu hesgidiau nhw. Ac fel bod hynny ddim yn ddi-gon, mae aelodaeth ar gael am

hanner y pris ym mis Ionawr a Chwefror - ewch i www.thebmc.co.uk i ymaelodi.

Parc Cenedlaethol Eryri

Mae Gareth Davies o SNP wedi mynychu cyfarfodydd BMC Cymru/Wales yn ddyfal ers sawl blwyddyn bellach. Mae'n ymddeol yn 2008. Hoffem ddymuno'n dda iddo wrth iddo ymddeoli a diolch iddo am weithredu fel cyswllt rhwng y BMC a SNP.

Diolch yn fawr Gareth.



Pat Littlejohn OBE

Llongyfarchiadau a diolch am yr holl lwybrau

Rheged yn cau

Bu i'r National Mountaineering Exhibition gau ar Noswyl Nadolig oherwydd diffyg ymwelwyr.

Oni byddai Llanberis yn ganolfan well ar ei gyfer?

MLT

Mae Mountain Leader Training bellach â gwobr ar gael ar gyfer goruchwylwyr sesiynau waliau ddringo. I ddarganfod mwy o wybodaeth am y wobwr newydd, Gwobr Wal Ddringo ewch i www.mltw.org

Newyddion o'r De

Dim llawer i adrodd ar hyn o bryd. Bu i ni gael y cyfarfod Annual Cliff Climbing Liaison meeting ym mis Tachwedd, sydd wedi dod ag ambell newid bychan i gyfyngiadau yng Ngogledd a De Sir Benfro. Mae'r rhain, ar y cyfan, yn newyddion da i ddringwyr gan nad yw'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau traddodiadol yn cael eu heffeithio yn awtomatig nes i'r adar gael eu gweld ar y mannau nythu. Mae CCW yn gy-northwyol iawn yn y dasg o gadw golwg ar y mannau ar ddechrau'r cyfnod nythu er mwyn i'r cyfyngiadau fod yn fwy cywir ac ni fydd rhaid i ni gadw'n glir o lefydd lle gall fod hebog neu frân goesgoch yn nythu. Dylai fod manylion ar RAD bellach. Mae Dee de Mengel yn rhoi'r gorau i'r swydd fel Cynrychiolydd Maes

yn yr haf pan fydd yn hwylio i ffwrdd i Fôr y Canoldir. Byddaf i yn cymryd drosodd. Mae'n ymddangos fod y polion belay yn cael cymeradwyaeth gan ddringwyr yn St. Govans and the Leap.

Steve Quinton

Busnes Lleol

Un o'r ffyrdd y gallwn gael dylanwad positif yn Eryri yw trwy fusnesau lleol. Bu i mi ymweld â Cig Ogwen ym Methesda yn ddiweddar. Dyma gigydd newydd yn cael ei redeg gan ffarmwr o Gwern Gof Uchaf - y fferm ar waelod Tryfan. Mae'n cynhyrchu a gwerthu oen gwerth chweil ac yn ffeindio cig eidion a chigoedd eraill lleol hefyd. Y cwbl fedraf ddweud yw bod y cynnyrch yn wych a'i fod yn werth ymweld â'r siop os ydych yn yr ardal. Rwy'n deall, hefyd, fod Conwy Falls Café o dan berchnogaeth newydd ac, mae'n ymddangos, yn dda iawn, iawn. Rhwch gyfle iddo. Ar nodyn mwy trist, mae cynnig i adeiladu parc adwerthu anferth yn Llanfair Pwll ar Ynys Môn. Wrth i ni ymladd i wneud i'r Strategaeth Goriad Gwyrdd weithio, i leihau ein heffaith amgylcheddol ac i gefnogi busnesau lleol, mae'n ymddangos yn od iawn fod unrhyw un yn

gweld dyfodol yn y cynllun hwn. Petai'r cynllun yn llwyddo fe fyddai'n golygu amgylchidau masnachu anoddach i siopau lleol a mwy o draffig ar y ffyrdd. Os oes gennych bryder am y math hwn o beth, ewch i ddarganfod mwy o wybodaeth. Mae'r cynllun bellach gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac mae disgwyl iddynt wneud penderfyniad ym mis Mawrth. Os ydych yn poeni - dwedwch hynny.

Gadewch i ni wybod os ydych am hyrwyddo unrhyw fusnes lleol a fyddai o ddiddordeb o ddringwyr neu gerddwyr yng Nghymru trwy e-bostio:

bmccymruwales@live.co.uk

<mailto:
bmccymruwales@live.co.uk>

Wiki's

Peidiwch ag anghofio ymweld y Wiki's canlynol ac ychwanegu eich sylwadau www.gogarth.wetpaint.com www.slate.wetpaint.com www.tremadog.wetpaint.com www.tremadog.wetpaint.com

Mae gan yr holl wefannau ddo-lenni tywydd gan gynnwys y camerâu agosaf, felly gallwch gymryd cipolwg ar y tywydd cyn mynd.



CÔD CREIGIAU
www.thebmc.co.uk

Mynediad	Gwiriwch y gronfa-ddata mynediad rhanbarthol (RAD) ar www.thebmc.co.uk am y gwybodaeth diweddaraf ynglun â mynediad
Parcio	Parciwch yn ofalus gan osgoi giatiaau a thramwyfeydd
Llwybrau	Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u sefydlogi. Gadwch giatiaau fel 'rydych yn eu ffeindio
Peryglon	Gall dringo fod yn beryglus- derbyniwch y peryglon a byddwch yn ymwybodol o bobl eraill o'ch cwmpas
Parch	Grwpiau ac unigolion- parchwch y graig, moeseg dringo lleol a phobl eraill

Bywyd gwyllt	Peidiwch darfu ar da byw, anifeiliaid gwyllt, neu llystyfiant ar y clogwyni; parchwch gyfyngiadau tymhorol nythu adar
Cŵn	Cadwch cŵn o dan rheolaeth ar bob achlysur; peidiwch gadael eich ci hel defaid neu darfu ar bywyd gwyllt
Sbwriel	Peidiwch gadael olion – cymrwch eich sbwriel i gyd adref gyda chi
Tai bâch	Peidiwch gwneud llanast – claddwch eich gwastraff
Economi	Gwnewch popeth a fedrwrch i gefnogi'r economi gwledig- prynnwch yn lleol

Datganiad cyfranogaeth y BMC — mae dringo, cerdded brynau a mynyddau yn weithgareddau gyda perygl o niwed personol neu marwolaeth. Dylai cyfrannogion yn y gweithgareddau yma fod yn ymwybodol o'r peryglon ac yn fodlon eu derbyn, a dylent fod yn gyfrifiol am eu gweithredau a'u cysylltiad.